# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Mai 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6325

## 277

Dechreuodd yr eitem am 13.33

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 13.34

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.34

## Pwynt o Drefn

Cododd Adam Price bwynt o drefn yn gofyn i'r Llywydd ddefnyddio ei phwerau o dan Reol Sefydlog 12.17 neu 12.18 i newid trefn busnes heddiw neu ohirio'r cyfarfod dros dro er mwyn sicrhau cyfle i'r Aelodau astudio dogfen COVID-19 y Llywodraeth 'Strategaeth Profi Olrhain Diogelu', a gyhoeddwyd 8 munud yn unig cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn, yn ymwneud â'r datganiad y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud.

Cafodd pwysigrwydd y ddogfen ei gydnabod gan y  Llywydd a dywedodd ei bod yn arfer da i ddosbarthu datganiadau cyn iddynt gael eu rhoi, ond nid oedd yn credu ei bod yn briodol ar hyn o bryd i oedi'r datganiad.

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.48

Am 16.04 gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud.

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Y goblygiadau cyllidol i Gymru yn sgil effaith COVID-19 a'r ymateb iddo

Dechreuodd yr eitem am 16.16

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 17.11

Daeth y cyfarfod i ben am 18.00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mai 2020**